Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI449

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cynyddu'r cyllid i Wasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2021, dyfarnodd y Weinidogaeth Gyfiawnder gyllid ychwanegol drwy Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddarparwyr gwasanaeth o fewn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), i gydnabod y cynnydd mewn costau darparu'r gwasanaeth a'r cynnydd yn y galw ac yn y nifer o atgyfeiriadau a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig Covid 19.

Ers 2022, mae hyn wedi ei drosglwyddo drwy gytundeb grant yn defnyddio cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder. O Ebrill 2026, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi cynnydd o 2% i'r gronfa hon, i'w ailadrodd yn 2027/28. Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod y cynnydd hwn yn cael ei basio ymlaen i bob darparwr gwasanaeth sy'n derbyn y cyllid a glustnodwyd.

Derbyniwyd achos busnes gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin i roi tystiolaeth bod costau darparu gwasanaeth wedi cynyddu mwy na 2% ers y dyfarniad cychwynnol o gyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r achos busnes hwn wedi ei ystyried gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau ac ystyrir ei fod yn darparu tystiolaeth i gyfiawnhau cynnydd ychwanegol. Roedd y dyfarniad gwreiddiol yn £35,056. Mae'r cais am £4004 ychwanegol yn 2026/27 a £3776 yn 2027/28. Mae hwn yn cyfateb i gynnydd o tua 11%, 9% yn uwch na'r cynnydd a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yn 2023/24 cefnogodd y gwasanaeth 93 o gleientiaid, gan gynyddu i 113 yn 2024/25 a 115 yn 11 mis cyntaf 2025/26. Nid yw'r cyllid wedi ei gynyddu ers y dyfarnwyd y cytundeb grant cychwynnol yn Ebrill 2022.

Cynigir bod y cynnydd yn cael ei ymgorffori yn y cytundeb grant rhwng y CHTh a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin o 1 Ebrill 2026.

**Argymhelliad:**
Bod y CHTh yn cymeradwyo'r cyllid ychwanegol o £4004 yn 2026/27 a £3776 yn 2027/28 i Wasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 22/04/2026**